LC41(R)

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Diwygio Cynghorau Iechyd Cymuned (Cymru) 2000

### Y Cefndir

Mae Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996 yn darparu bod yr aelodau cyntaf, pan gaiff cyngor iechyd cymuned ei sefydlu, yn cael eu penodi am ddau gyfnod gwahanol. Gwneir hyn i sicrhau na fydd y sefyllfa'n codi lle daw'r holl benodiadau i ben ar yr un pryd.

Er hynny, am nad yw'r darpariaethau hyn wedi'u parchu'n llawn, fe fydd y sefyllfa yn codi bellach lle bydd yr holl benodiadau i gynghorau iechyd cymuned yng Nghymru yn dod i ben ar yr un pryd.

Gan hynny, mae'r rheoliadau diwygio hyn yn cael eu gwneud er mwyn cynnwys darpariaeth ym mhrif Reoliadau 1996 fod penodiadau o dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r un rheolau ag a oedd yn gymwys ar gyfer y penodiadau cyntaf.

### Rheol Sefydlog 11

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi o ran materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan reol Sefydlog 11.5.

### Sylwadau Cyffredinol

### Y Nodyn Esboniadol

Byddai'r Nodyn Esboniadol yn gliriach o'i rannu yn ddau baragraff.

### Y Troednodiadau

Ar ddiwedd yr offeryn y gwelir y troednodiadau ar hyn o bryd, a hynny er mwyn osgoi anawsterau wrth brosesu geiriau. Bydd angen eu dyrannu i'r tudalennau priodol, ar ffurf dwy golofn, yn y rheoliadau sydd i'w cyhoeddi.

Dylid cael atalnod llawn ar ddiwedd rhaglith y testun Saesneg, ac ar ddiwedd Cymal y Llofnod yn y testun Saesneg.

**M. GERMAN**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-057

25 Ionawr 2000